

Taflen Wybodaeth Glasu / Glasu Information Sheet – Rhif 2 / No. 2 GWREIDDGYFFION / ROOTSTOCKS

Ni ellir tyfu afalau, gellyg, eirin na cheirios o doriadau. Yn fasnachol, cant eu cenedlu trwy eu himpio ar blanhigyn sy'n perthyn yn agos. O ganlyniad i hyn, mae pob coed perllan yn cynnwys dau blanhigyn amlwg:

- Y rhan sydd â'r gwreiddiau, sef y **gwreiddgyff**.
- Y math a ddewiswyd i'w himpio ar y gwreiddgyff. **Blaguryn** yw'r enw ar hyn.



©Frank P Matthews Ltd used with permission

Yn hanesyddol, cafwyd gwreiddgyffion trwy hau'r hadau o ffrwyth tebyg ac yna eu himpio ar yr eginblanhigyn a dyfodd o hynny. Nid oedd y dull hwn yn hollol foddhaol oherwydd yr amrywiaethau naturiol rhwng yr eginblanhigion. O ddechrau'r ugeinfed ganrif mae gorsafodd ymchwil wedi dechrau bridio a dethol planhigion gyda rhinweddau penodol i'w defnyddio fel gwreiddgyffion. Mae'r broses ddethol yn dal i fynd yn ei blaen a chaiff gwreiddgyffion newydd eu rhyddhau o dro i dro. Y dyddiau hyn, caiff gwreiddgyffion eu cenedlu o haenau fel bod pob un o fath arbennig yr unfath â'r gweddill. Mae hyn yn helpu i sicrhau y ceir canlyniadau unffurf pan gaiff blagur eu himpio arnynt.

Dosberthir gwreiddgyffion yn ôl eu grym. Maent yn amrywio o rai nad ydynt yn rymus iawn, sef 'corgwreiddgyffion', i rai grymus iawn. Mae eu grym, neu ddiffyg grym, yn cael ei drosglwyddo i'r blaguryn. Er enghraifft, bydd afal Eginblanhigyn Bramley o'i impio ar gorgwreiddgyff yn gallu cynhyrchu coeden sy'n tyfu i wyth troedfedd. O impio'r un math ar gwreiddgyff grymus, gall dyfu i drideg o droedfeddi wrth aeddfedu. Yn y ddau achos byddai ffrwythau'r Eginblanhigyn Bramley yr un faint, ond byddai cyfanswm pwysau'r cnwd yn uwch ar y goeden fwyaf.

Gall gwreiddgyffion hefyd drosglwyddo nodweddion eraill i flagur a impiwyd arnynt. Dyma esiamplau:

- Gallu gwrthsefyll rhai plâu neu afiechydon yn achos rhai gwreiddgyffion afalau.
- Dwyn ffrwyth yn gynnar: yn gyffredinol, y llai grymus yw'r gwreiddgyff, y cynharaf y bydd y blagur yn dwyn ffrwyth.

Bydd pa fath o gwreiddgyff i ddewis yn dibynnu ar beth yw diben y goeden ffrwythau. Bydd coed perllan traddodiadol a blannwyd trideg troedfedd o'i gilydd yn tyfu ar gwreiddgyffion grymus. (Mae'n bosibl y bydd rhai cynlluniau â chymorth grant yn mynnu ar y mathau hyn o wreiddgyffion). Byddai angen impio coed gerddi bychain sydd i'w tyfu yn erbyn wal neu mewn potiau, ar gorgwreiddgyffion.

Mae tri ffactor arall i'w hystyried wrth benderfynu pa gwreiddgyffion i'w defnyddio.


- Mae rhai mathau o goed ffrwythau yn naturiol rymus, neu i'r gwrthwyneb. Gallwch ddewis gwreiddgyff i ddigolledu rhag nodweddion y math.
- Bydd y math o bridd y tyfir y coed yn dylanwadu ar ei rym. Bydd pridd ffrwythlon yn golygu y bydd y gwreiddgyff yn tyfu i'w lawn faint. Fel arall, bydd pridd tywodlyd sâl

Taflen Wybodaeth Glasu / Glasu Information Sheet – Rhif 2 / No. 2 GWREIDDGYFFION / ROOTSTOCKS

yn rhwystro gwreiddgyff grymus rhag tyfu. Gallwch ddewis gwreiddgyff i ddigolledu rhag nodweddion eich pridd.

- Mewn ucheldiroedd oer a bryniog, mae'n well defnyddio gwreiddgyffion grymus. Maent yn fwy tebygol o lwyddo pan fydd y tywydd yn llai ffafriol ac mewn pridd sâl.

Mae'r siart isod yn cynnwys enwau'r gwreiddgyffion mwyaf cyffredin a'u dylanwad ar goed ffrwythau.



©Frank P Matthews Ltd used with permission

Ni fydd pob planhigfa coed ffrwythau yn cenhedlu pob math ar bob math o wreiddgyffion. Byddai'n fanteisiol i siopa o gwmpas os ydych yn chwilio am fathau penodol ar wreiddgyffion penodol. Mae rhai planhigfeydd yn cynnig gwasanaeth pwrpasol gan impio coed ar eich dewis o wreiddgyff. Bydd hyn fel arfer yn golygu costau ychwanegol ac efallai oedi o rai blynyddoedd wrth iddynt dyfu'r coed yn benodol.

Gwahanol Gwreiddgyffion A'u Nodweddion:

AFALAU

- M27** Coeden gorrach iawn. Yn cynhyrchu'r goeden fechan go iawn, heb dyfu'n fwy na 2 metr heb fod angen llawer o gynhaliaeth. Yn wych i ardd fechan.
- M26** Coeden hanner corrach. Angen cynhaliaeth ar y rhan fwyaf o safleoedd. Yn dda ar gyfer llwyni a rhesi mewn mannau prin.
- M9** Corrach. Ffrwythlon iawn ond diffyg angorfa sydd angen ei stancio'n barhaol. Yn ddelfrydol ar gyfer rhesi.
- MM106** At ddibenion cyffredinol ar gyfer y rhan fwyaf o resi a choed hanner tal. Angen eu stancio dim ond ar safleoedd agored.
- MM111** Grymus. Yr un fath â MM106 ond yn fwy ddelfrydol ar gyfer coed hanner tal. Nid oes angen stancio. Yn gallu gwrthsefyll 'collar rot' ac afiechydon cyffredinol.
- M25** Grymus iawn. Yn ddelfrydol ar gyfer coed hanner tal a rhai tal.

CEIRIOS

- Tabel** Corachaid iawn. Nid ydynt yn cael eu defnyddio gymaint nawr.
- Gisela 5.** Corrach. 60% o'r Colt. Yn ddelfrydol ar gyfer perllannau masnachol, gerddi a photiau patios.

Taflen Wybodaeth Glasu / Glasu Information Sheet – Rhif 2 / No. 2
GWREIDDGYFFION / ROOTSTOCKS

- **Colt.** Hanner corrach. Ffrwythlon iawn ac yn hollol gytun â'r mathau melys a blodeuo. Bydd yn cynnwys coed hyd at 4 – 5 medr.
- **Prunus F.12.1** Grymus iawn. Math dethol o'r ceirios gwyllt *Prunus avium*.

GELLYG

- **Quince 'C'** Corrach gyda chnwd ychydig yn gynharach.
- **Quince 'A'** Hanner corrach. Y gwreiddgyff delfrydol ar gyfer coed llwyni.
- **Eginblanhigyn Gellyg** (*Pyrus communis*) Grymus iawn. Yn fwy addas ar gyfer coed hanner tal a choed tal yn arbennig.

EIRIN

- **Pixy** Corrach ac yn ddelfrydol ar gyfer cyfyngu ar faint yn yr ardd.
- **St. Julien 'A'** Hanner grymus. Yn llwyr gytun â phob math o eirin, eirin duon, eirin gwyrdd, eirin gwlanog, nectarinau a bricyll a sawl math o'r *Prunus* addurnol.
- **Brompton** Grymus, yn addas ar gyfer coed tal.